# Cymorth Astudiaeth Dichonoldeb ar gyfer Prosiectau Ynni Glân ac Datgarboneiddio yn y Dyfodol

## Nodiadau Canllaw, Cymhwysedd a Chwestiynau a Ofynnir yn Aml (FAQs)

### Cefndir

Yn 2025, lansiodd Uchelgais Gogledd Cymru Cronfa Ynni Glân Gogledd Cymru. Cynigwyd cyllid i brosiectau cyfalaf sy'n ymwneud â datrysiadau ynni lleol blaengar a phrosiectau datgarboneiddio ehangach yn y trydydd sector a'r sector preifat (SME) ar draws Gogledd Cymru. Mae hefyd yn cyd-fynd â chyllid cyfalaf sydd ar gael ar hyn o bryd drwy Gronfa Fuddsoddi i Gymru, Banc Busnes Prydain a Chynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd, Banc Datblygu Cymru, ymhlith eraill.

I gyd-fynd â hyn, bydd cymorth astudiaeth dichonoldeb yn helpu sefydliadau Gogledd Cymru sydd yn datblygu prosiectau ynni glân neu ddatgarboneiddio drwy ddarparu cymorth i baratoi cynigion cryf, sydd yn barod am fuddsoddiad. Bydd y cymorth yma yn cael ei gynnig gan gyflenwr a dewiswyd o flaen llaw gan Uchelgais Gogledd Cymru, hyd at werth £15,000 (eithrio TAW) i bob cais llwyddiannus.

### Cymhwyster

Mae sefydliadau cymunedol a busnesau bach a chanolig (SMEs) 1 yn cymwys i wneud cais, cyhyd â bod gan sefydliadau ei brif leoliad yn un neu fwy o'r 6 awdurdod lleol hon yng Ngogledd Cymru: Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam, ac yn gallu dangos tystiolaeth eu bod yn masnachu o eiddo yng Ngogledd Cymru.

Mae cymorth ar gael ar gyfer un sefydliad y sir, gan olygu cyfanswm o chwe phrosiect - un ar gyfer phob sir yng Ngogledd Cymru.

- Mae rhaid cyflwyno ceisiadau drwy ein ffurflen ar-lein.
- Ni chaiff ceisiadau anghyflawn eu hystyried.
- Mae pob gwobr yn ddewisol, does dim proses apêl.
- Nid yw cyflwyno cais yn gwarantu y bydd cefnogaeth yn cael ei darparu.
- Bydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus weithio gyda chyflenwr a ddewiswyd ymlaen llaw gan Uchelgais Gogledd Cymru.

### Cwestiynau a Ofynnir yn Aml (FAQ):

#### Ar gyfer beth mae'r cymorth?

Mae'r gefnogaeth sydd ar gael yn astudiaeth dichonoldeb ar gyfer sefydliadau sy'n datblygu prosiect ynni galan neu ddatgarboneiddio yng Ngogledd Cymru.

I fod yn gymwys, rhaid i'r sefydliad fod â phrosiect fydd yn arwain at un neu ddau o'r isod:

[1] Fel y diffinnir gan Lywodraeth y DU, diffinnir menter bach a chanolig fel menter sy'n cyflogi llai na 250 o bobl ac nad yw cyfanswm trosiant blynyddol a/neu fantolen flynyddol yn fwy na 50 miliwn EUR.

1. Gostyngiad mewn allyriadau $CO_2$ drwy welliannau effeithlonrwydd ynni.

2. Cynhyrchu ynni adnewyddadwy.

## Pwy gaiff wneud cais?

Mae sefydliadau cymunedol a busnesau bach a chanolig (SMEs) yn gymwys i wneud cais, cyhyd â bod gan sefydliadau ei brif leoliad yn un neu fwy o'r 6 awdurdod lleol hon yng Ngogledd Cymru: Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam. Bydd angen i'r sefydliadau ddangos tystiolaeth o'u gweithrediadau o eiddo yng Ngogledd Cymru. Bydd blaenoriaeth i sefydliadau sy'n cyflogi llai na 250 o weithwyr neu wirfoddolwyr. Rhaid i bob ymgeisydd ddangos yn ddigonol eu bod angen cymorth astudiaeth dichonoldeb sy'n ymwneud â phrosiect ynni neu ddatgarboneiddio sydd ar y gweill yng Ngogledd Cymru.

## Faint o gymorth sydd ar gael?

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn cymorth refeniw at gyfer astudiaethau dichonoldeb, hyd at werth uchaf o £15,000 (eithrio TAW). Bydd y cymorth hwn yn cael i ddarparu gan gyflenwr a ddewiswyd ymlaen llaw gan Uchelgais Gogledd Cymru.

## Faint o sefydliadau fydd yn cael eu cefnogi?

Bydd un sefydliad o bob un o'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam) yn cael eu cefnogi.

Cedwir unrhyw ymgeiswyr ychwanegol ar restr wrth gefn a byddant yn cael eu cefnogi os bydd cyllid digonol ar gael. Ystyrir unrhyw geisiadau anghyflawn yn anghymwys. Mae'r holl ddyfarniadau yn ddewisol ac nid oes proses apêl. Nid yw gwneud na chyflwyno cais am y grant yn gwarantu y bydd unrhyw gyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer cymorth ysgrifennu bid hwn. Dim ond un cais ystyrir fesul sefydliad, hyd yn oed os oes ganddynt leoliadau lluosog yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi eich prif leoliad yng Ngogledd Cymru yn y ffurflen gais.

## Sut i ymgeisio?

- Mae'r ffurflen gais ar gael ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru
- Mae hefyd ar gael drwy ebostio ynni@uchelgaisgogledd.cymru
- Dim ond drwy ein ffurflen ar-lein byddem yn derbyn ceisiadau.

### Erbyn pryd mae angen i ni wneud cais?

Mae angen gwneud cais erbyn y **5ed o Awst 2025.** Os bydd mwy o gyllid yn dod ar gael neu os na fydd cymorth wedi'i neilltuo ym mhob sir, mae gan Uchelgais Gogledd Cymru yr hawl i ymestyn y dyddiad cau.

### Gwerthusiad

Bydd cynrychiolwyr o Uchelgais Gogledd Cymru yn gyfrifol am werthuso ceisiadau a phenodi'r ymgeisydd llwyddiannus o ganlyniad i'r broses werthuso.

Bydd y Tîm Gwerthuso yn sgorio pob adran neu ymateb. Bydd pob cwestiwn yn cael ei werthuso yn unol â'r dulliau isod a bydd y sgôr a roddir yn adlewyrchu lefel yr hyder yn yr ymateb(ion) sy'n cael eu hystyried. Mae'r dehongliadau cyffredinol o'r meini prawf ar gyfer y gwahanol lefelau hyder wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol:

**Tabl 1** – Methodoleg Sgorio

| Sgôr | Perfformiad | Beirniadaeth |
|---|---|---|
| 5 | Cais cryf a manwl sy'n bodloni ac yn rhagori ar y meini prawf | Arbennig |
| 4 | Yn bodloni'r meini prawf yn llawn gyda gwybodaeth glir. | Da |
| 3 | Yn bodloni'r rhan fwyaf o'r meini prawf, ond gyda rhai pryderon neu fylchau. | Derbyniol |
| 2 | Ymatebion byr neu rannol; pryderon am gymhwysedd neu ddealltwriaeth. | Amheus |
| 1 | Gwybodaeth allweddol ar goll; anodd asesu addasrwydd. | Gwael |
| 0 | Prin ddim gwybodaeth berthnasol neu ddim o gwbl. | Methu |

### A ystyrir y cymorth yn gymhorthdal dan Gyfundrefn Rheoli Cymorthdaliadau'r DU?

Ydy, ystyrir bod y cymorth yn gymhorthdal ac mae'n cael ei gynnig i ymgeiswyr llwyddiannus drwy'r eithriad Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) yn adran 36 Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022.

Drwy MFA, gall busnesau dderbyn cymhorthdal hyd at uchafswm trothwy o £315,000 dros gyfnod o dair blynedd. Mae hyn yn disodli eithriad de minimis Cymorth Gwladwriaethol blaenorol. Er mwyn sicrhau y gellir defnyddio'r eithriad MFA, byddwn yn gofyn i chi ddarparu cadarnhad ysgrifenedig i ni na fydd ein cymhorthdal yn peri i chi fynd dros eich hawl o £315,000. Bydd angen i chi ystyried unrhyw gymorthdaliadau a gawsoch yn ystod y tair blynedd diwethaf o dan eithriad MFA neu o dan eithriad de minimis Cymorth Gwladwriaethol neu'r eithriad ar gyfer 'symiau bach o gymorth ariannol' yng Nghytundeb Cydweithredu a Masnach yr UE-DU. Os byddai ein cymhorthdal yn fwy na'ch hawl sy'n weddill o dan yr eithriad MFA, ni fyddwn yn gallu darparu'r grant i chi.